

Y Llyfr gan Ruth Aldridge

Ro'n i'n caru gwranddo ar fy mam, roedd hi'n un dda am ddweud straeon. Ro'n i'n arfer dweud wrth Mam "Mi ddylet ti ysgrifennu llyfr", ond wnaeth hi erioed wneud.

Mi gaeth hi ei geni a'i magu ar fferm fach. Roedd gynni hi chwe chwaer ond dim brodyr.

Taid oedd yr unig ddyn yn y tŷ, hen greadur! Doedd gynnyn nhw ddim llawer o arian a deud y gwir, ond roedden nhw'n hapus.

Roedd rhaid iddyn nhw fynd i'r ffynnon ar hyd y lôn i nôl dŵr. Weithiau roedd broga yn y dŵr, ych-a-fi!, ond yn ôl fy nain "mae brogoad yn cadw'r dŵr yn lân". Dw i ddim yn siŵr am hynny! Doedd dim ots, roedden nhw angen y dŵr. Mi wnaeth Nain y golchi bob dydd Llun.

Doedd gynnyn nhw ddim ystafell ymolchi. Roedd eu tŷ bach ar draws yr iard yn ymyl y cwt ieir, OND... roedd problem fawr... y ceiliog! Bobl bach y Bala! Roedd o'n gas! Roedd rhaid iddyn nhw redeg yn gyflym, yn gyflymach na'r ceiliog i gyrraedd y tŷ bach a chau y drws! Wedyn, problem arall... sut i fynd yn ôl!!!

Storiwr swynol oedd Mam. Roedd gynni hi lawer o storïau. Ro'n i'n methu gwranddo ar storïau Mam cymaint ar ôl iddi hi farw.

Wedyn, un diwrnod mi wnes i ffeindio hen focs yn yr atig. Mi agores i'r bocs... roedd llawysgrifen Mam ar lyfr... mi agores y llyfr... Y LLYFR!